

Rhondda Cynon Taf  
County Borough Council

**Technical Specification/  
Conditions of Licence**  
for Hackney Carriage/  
Private Hire Vehicles

fel ar 7 Mehefin 2016



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE  
**RHONDDA CYNON TAF**  
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR



## 1. MANYLEB CERBYD

### 1.1 Manyleb Dechnegol / Math o Gerbyd

**I fod yn gymwys i gael trwydded fel Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat , rhaid i gerbyd fodloni'r safonau technegol canlynol:**

Cael cymeradwyaeth math M1 y Gymuned Ewropeaidd, sy'n cynnwys

- a. Cymeradwyaeth Math Ewropeaidd Gyfan, neu
- b. Cymeradwyaeth Math Fach y DU ar Gyfer Ceir Teithwyr
- c. Cymeradwyaeth Cerbyd Unigol y DU

a rhaid iddo gydymffurfio â Rheoliadau Cerbydau'r Ffordd (Gweithgynhyrchu a Defnydd) 1986.

### 1.2 Cerbydau wedi'u haddasu

Cerbydau modur sydd â chymeradwyaeth math M1 (Cymeradwyaeth Math o Gerbyd Cyfan y Gymuned Ewropeaidd) ac sydd wedi cael eu HADDASU neu sydd wedi bod yn destun UNRHYW NEWIDIADAU ers iddyn nhw gael eu cynhyrchu, ar yr amod eu bod yn cael:

- a. Cymeradwyaeth Math Fach y DU ar gyfer ceir Teithwyr; NEU
- b. Cymeradwyaeth Cerbyd Unigol y DU

### 1.3 Eithriadau

Fydd cymeradwyaeth Math o Gerbyd Unigol y DU **ddim yn cael ei dderbyn lle:**

- a. dydy'r gwregysau diogelwch sydd wedi'u gosod yn y cerbyd ddim yr un rhai sydd wedi'u gosod gan y gwneuthurwr a dydyn nhw ddim wedi cael eu profi yn unol â chymeradwyaeth math gwreiddiol y cerbyd; NEU
- b. lle mae seddi / safleoedd ar gyfer cadeiriau olwyn wedi eu gosod yn y cerbyd a allai annilysu'r gymeradwyaeth math wreiddiol ar gyfer unrhyw seddi sydd wedi'u gosod yn y cerbyd, ac eithrio pan fydd yr ymgeisydd yn cyflwyno tystiolaeth nad yw hyn yn wir.

*NODWCH: Pwrpas yr ardystiad gofynnol yw sicrhau bod gan gerbydau wedi'u haddasu safon achredu a diogelwch sy wedi'i gdnabod yn genedlaethol. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cyflwyno dogfennaeth sy'n briodol i'r cerbyd. Bydd methu â gwneud hynny yn arwain at wrthod derbyn bod y cerbyd yn addas i'w drwyddedu.*

Ni fydd Cerbyd Modur sydd â chymeradwyaeth **Math N** (Cymeradwyaeth math cerbyd cyfan y Gymuned Ewropeaidd) fel arfer yn cael ei ystyried oni bai eu bod yn cael Cymeradwyaeth Math Fach y DU ar gyfer ceir Teithwyr.

#### 1.4 **Cerbydau M2 (Cerbydau Teithwyr 8+ Sedd fel arfer)**

Bydd cerbydau math M2 yn cael eu cymeradwyo ar gyfer trwydded i gydnabod yr angen i Weithredwyr allu cynnal hyblygrwydd eu cerbyd i ddarparu ar gyfer naill ai nifer o deithwyr mewn cadeiriau olwyn, neu gyfuniad o deithwyr mewn cadeiriau olwyn a theithwyr sydd ddim yn defnyddio cadeiriau olwyn (hyd at uchafswm o 8).

Er mwyn cael ei drwyddedu, byddai angen i'r math yma o gerbyd leihau'r capasiti eistedd i **ddim mwy nag 8 sedd i deithwyr**, **gan gynnwys teithwyr mewn cadeiriau olwyn yn barhaol**. O ganlyniad, byddai angen addasu cerbydau o'r fath.

Yna byddai angen ardystiad mewn perthynas ag addasiadau, sef:

1. Y Dystysgrif Ffitrwydd Cychwynol (COIF) (i ddarparu tystiolaeth hanesyddol bod pwyntiau angori gwregysau diogelwch a'r seddau'n cyrraedd safonau VOSA; A)
2. Cymeradwyaeth Math Fach y DU
3. Cymeradwyaeth Math o gerbyd cyfan Ewropeaidd; (fel rheol, cyhoeddir eitemau 2 a 3 gan wneuthurwr y cerbyd neu'r sawl sydd wedi'i addasu ac mae unrhyw gostau ardystio fel arfer yn rhan o bris prynu'r cerbyd).

#### 1.5 **Hawliau Blaenorol**

Rhoddir trwydded cerbyd ar gyfer cerbyd penodol am uchafswm o flwyddyn. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw o flwyddyn, bydd modd i'r trwyddedai wneud cais am drwyddedau pellach hyd at ddiwedd 'oes drwyddedadwy' y cerbyd, **ar yr amod bod y cerbyd yn parhau i fod yn addas**.

Asesir 'oes drwyddedig' y cerbyd gan ddefnyddio:

- dyddiad cofrestru cyntaf y cerbyd;
- amodau trwydded a oedd mewn grym ar yr adeg y rhoddwyd y drwydded berthnasol.

Bydd y dyddiad perthnasol yn ymddangos ar y copi papur o'r drwydded cerbyd a ddelir gan y trwyddedai, neu pan gyhoeddwyd y drwydded cyn cyflwyno newidiadau i drwyddedau (1/4/14), gall Swyddogion Trwyddedu gadarnhau'r oes drwyddedig ar gais.

Ar ôl cyrraedd diwedd y dyddiad 'bywyd trwyddedadwy', caniateir i unrhyw drwydded cerbyd a oedd mewn grym ar yr adeg honno barhau i ddod â'r drwydded benodol yma i ben - **ar yr amod bod y cerbyd yn parhau i fod yn addas**. Fydd unrhyw geisiadau pellach am drwydded ddim yn cael eu hystyried mewn perthynas â'r cerbyd.

Bydd unrhyw gais dilynol am drwydded a wneir gan y trwyddedai yn ddarostyngedig i'r meini prawf y manylir arnyn nhw yn y datganiad polisi yma.

Bydd yn ofynnol i ddeiliaid trwydded sy'n dymuno newid eu cerbyd presennol yn ystod cyfnod trwydded, cyn i'r 'oes drwyddedadwy' ddod i ben gydymffurfio â'r fanyleb ddiwygiedig ar gyfer cerbydau y manylir arni yn y datganiad polisi.

## 2. OEDRAN CERBYDAU

### 2.1 Rhoi Trwydded

#### Oed Derbyn Cerbydau

Math o Gerbyd	Math o Drwydded	Oedran Isaf	Oedran Uchaf
Cerbydau sy'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn; (i gynnwys rhai wedi'u hadeiladu'n bwrpasol; NEU gerbydau wedi'u haddasu gyda neu heb lifft-ôl)	Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat	Llai na 5 oed (o ddyddiad y cofrestriad cyntaf) (Oed Derbyn)	10 oed (ar yr amod bod pob trwydded ddilynol yn dod i rym ar unwaith pan ddaw'r drwydded flaenorol i ben).
Cerbydau sydd ddim yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn	Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat	Llai na 3 oed (o ddyddiad y cofrestriad cyntaf) (Oed Derbyn)	10 oed (ar yr amod bod pob trwydded ddilynol yn dod i rym ar unwaith pan ddaw'r drwydded flaenorol i ben).

### 2.2 Trwyddedau olynol

Yn dilyn CANIATÁU trwydded gyntaf ar gyfer cerbyd sydd o fewn yr 'Oedran Derbyn' a nodwyd uchod, bydd y cerbyd yn parhau i gael ei dderbyn i'w drwyddedu nes iddo gyrraedd diwedd 'oes drwyddedadwy' fel y manylir ar y drwydded.

Bydd derbyn y cerbyd am drwyddedau dilynol ar ôl yr 'oedran derbyn' yn ddarostyngedig i'r meini prawf canlynol:

- Bod bob cerbyd yn parhau i fod yn addas;
- Bod bob trwydded ddilynol yn dod i rym ar unwaith pan ddaw'r drwydded flaenorol i ben

Pe caniateir i drwydded cerbyd ddod i ben, bydd unrhyw gais dilynol am drwydded yn cael ei drin fel cais newydd gyda'r gofyniad ei fod yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y polisi yma. Bydd cerbydau sydd dros eu 'Hoedran Derbyn' ddim yn cael eu trwyddedu (fel y manylir uchod).

### 2.3 Amgylchiadau Eithriadol

Anogir trwyddedigion i wneud ceisiadau amserol i sicrhau bod trwyddedau cerbydau yn rhedeg yn olynol o 'oedran derbyn' i 'ddiwedd oes drwyddedadwy'.

Serch hynny, lle gall perchennog cerbyd ddangos AMGYLCHIADAU EITHRIADOL er boddhad y Cadeirydd / Is-gadeirydd, ynghyd â Chyfarwyddwr lechyd a Diogelwch y Cyhoedd bod y methiant i wneud cais cyn i'r drwydded gyfredol ddod i ben oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth ef, gellir ystyried cais.

Wrth ystyried cais o'r fath, bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yn rhoi sylw i broffil masnachu'r trwyddedai, hanes prawf y cerbyd ac unrhyw wybodaeth ategol a ystyrir yn berthnasol i benderfynu ar y cais.

## **2.4 Polisi Cerbyd Newydd**

Er mwyn cynorthwyo perchnogion sy'n dymuno gallu newid cerbydau yn ystod cyfnod trwydded bresennol, bydd y Cyngor yn gweithredu 'polisi cerbyd newydd'. Bydd hyn yn caniatáu ildio'r drwydded bresennol a rhoi trwydded blwyddyn newydd ar gyfer y cerbyd newydd. Rhaid i unrhyw gerbyd sy'n cael ei gyflwyno i'w drwyddedu gydymffurfio â'r manylebau sy'n cael eu cynnwys yn y polisi yma.

Does dim sail yn y ddeddfwriaeth ar gyfer TROSGLWYDDO TRWYDDEDAU CERBYD o GERBYD I GERBYD ac felly dydy'r trafodiad yma ddim yn cael ei ganiatáu.

## **3. LIFRAI/LLIW Cerbyd Hacni**

Rhaid i'r cerbyd fod yn **DDU**, (neu unrhyw liw arall a bennir gan y Cyngor ar adeg ei drwyddedu).

### **3.1 Cerbyd Hurio Preifat**

Rhaid i'r cerbyd fod yn **WYN**, (neu unrhyw liw arall sy'n cael ei bennu gan y Cyngor ar adeg ei drwyddedu).

## **4. MANYLEB AR GYFER TU MEWN I'R CERBYD**

**4.1** Rhaid i'r cerbyd fod yn addas o ran math, maint, dyluniad a lliw fel Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat a chydymffurfio â'r gofynion canlynol:

- a. fod yn gar wedi'i ffitio â phedair olwyn ffordd, bod ag o leiaf bedwar drws a bod yn gyrru ar y dde
- b. fod â digon o le i eistedd a digon o le i'r pen â'r pengliniau, sef;

### **4.2 Uchder (y tu mewn)**

Rhaid i'r uchder rhwng pen clustogau'r sedd a'r to, yn y man isaf, beidio â bod yn llai na **81.3cm (32 modfedd)**.

### 4.3 Lle i'r pengliniau

Rhaid i'r pellter rhwng cynhalydd cefn y sedd a'r tu cefn i'r sedd o'i blaen – a rhwng cynhalydd cefn y sedd a'r consol neu unrhyw ran o'r cerbyd yn union o flaen y sedd (yn achos pob sedd flaen) – beidio â bod yn llai na 27 modfedd neu 68.5cm.

**I ddibenion yr amod yma, bydd cynhalydd cefn y sedd yn fan lle mae tu blaen y cynhalydd cefn ar echelin fertigol yn cwrdd â chlustog y sedd ar echelin lorwedd, ac yn cael ei fesur o'r man mwyaf allanol ar glustog y sedd.**

*Fydd y mesuriad yma **ddim yn berthnasol** i'r sedd ganol yn y cefn lle mae'r consol canol rhwng y ddwy sedd flaen yn ymwithio allan y tu hwnt i gefn y seddi blaen. Bydd addasrwydd y lle i'r pengliniau ar gyfer teithwyr yn cael ei asesu yn ôl disgrisiwn y Swyddog Trwyddedu.*

### 4.4 Sedd (Lled)

Rhaid i led y sedd gefn o'r cynhalydd cefn y sedd i'r ymyl blaen beidio â bod yn llai na **45.7 centimetr (deunaw modfedd)**.

*Pan fo'r cerbyd wedi'i adeiladu'n bwrpasol ac yn hygyrch i gadeiriau olwyn, bydd y Swyddog Trwyddedu yn defnyddio'i ddisgrisiwn i asesu addasrwydd lled y sedd sydd ar gael i deithwyr sy'n talu prisiau, gan roi sylw dyledus i natur arbenigol y cerbyd.*

### 4.5 Sedd Gefn (Hyd)

Rhaid i hyd y sedd gefn, sy'n cael ei mesur mewn llinell syth ar draws blaen y sedd, ganiatáu lle digonol i eistedd, sy'n cynnig o leiaf **40.6cm (16 modfedd)** y pen.

## 5. NIFER/CYFLUNIAD Y SEDDI

5.1 Rhaid i'r cerbyd fod â digon o le i eistedd o leiaf pedwar teithiwr a dim mwy nag wyth o deithwyr yn ychwanegol at y gyrrwr. Penderfynir ar y capasiti eistedd yn unol â pharagraffau (i) (a) ac (i) (b) a pharagraff (ii) o Reoliad 42 o Reoliadau Cerbydau Ffyrdd (Cofrestru a Thrwyddedu) 1971.

### 5.2 Cerbydau Amlbwrpas

Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi ymrwymo i drwyddedu gwahanol fathau o gerbydau fel naill ai Cerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat, bydd addasrwydd y cyfluniad seddi yn fater i'w ystyried er mwyn caniatáu mynediad ac allanfa briodol i deithwyr.

## 6. GWREGYSAU DIOGELWCH

Rhaid gosod gwregysau diogelwch cwbl weithredol ar bob cerbyd, un ar gyfer cludo pob teithiwr, sy'n cydymffurfio'n llawn â'r Safon Brydeinig berthnasol, ac eithrio pan fo deddfwriaeth yn darparu eithriad yn benodol.

Mewn perthynas â chludo'r holl deithwyr, gan gynnwys plant, rhaid cydymffurfio â gofynion yr holl ddeddfwriaeth berthnasol.

## **7. TEIARS**

Rhaid i'r holl deiars, gan gynnwys yr olwyn sbâr, fod yn addas i'w defnyddio ar y cerbyd a chydymffurfio â gofynion Manyleb y Gwneuthurwr Gwreiddiol.

Mae teiars sy'n gallu rhedeg ar ôl cael twll yn dderbyniol ar gerbydau sydd wedi'u trwyddedu.

Mae teiars sbâr sy'n 'arbed lle' yn dderbyniol ar gerbydau trwyddedig os ydyn nhw'n cydymffurfio â Manyleb Gwreiddiol y Gwneuthurwr.

Os bydd teiar sbâr sy'n 'arbed lle' yn cael ei ddefnyddio ar gerbyd trwyddedig rhaid iddo fod am gyfnod cwblhau'r daith gyfredol yn unig a rhaid mynd â'r car i garej i gael un addas yn ei le. Does dim hawl cymryd rhagor o deithwyr tra bod y teiar sbâr sy'n 'arbed lle' yn cael ei ddefnyddio ar y cerbyd.

Caniateir 'cit trwsio teiars/cywasgydd' Manyleb y Gwneuthurwr Gwreiddiol mewn cerbydau trwyddedig ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â'r Safonau Prydeinig perthnasol.

Os byddwch chi'n defnyddio 'cit trwsio teiars / cywasgydd' ar gerbyd trwyddedig yn lle teiar sbâr rhaid iddo fod am gyfnod cwblhau'r daith gyfredol yn unig a rhaid mynd â'r car i garej i gael un addas yn ei le. Does dim hawl cymryd rhagor o deithwyr tra bod y 'cit trwsio teiars / cywasgydd' yn cael ei ddefnyddio ar y cerbyd.

## **8. BAGIAU**

**8.1** Rhaid bod digon o le i storio bagiau teithwyr Rhaid gofalu bod bagiau sy'n cael eu cario yn cael eu dal yn ddiogel heb amharu mynediad at allanfeydd brys.

**8.2** Os yw'r cerbyd trwyddedig yn gar ystâd, yn gar cefn codi, neu'n gerbyd aml-deithiwr, rhaid iddo gael rheilen ddiogelu neu orchudd sy'n cydymffurfio â manyleb y gwneuthurwr, a gymeradwywyd gan y Cyngor, i atal bagiau rhag mynd i mewn i adran y teithwyr cefn. Bydd dim eithriad i'r gofyniad yma oni bai bod y Cyngor yn penderfynu does dim angen gofyniad o'r fath.

## **9. CERBYDAU SY'N DEFNYDDIO NWY PETROLEWM HYLIFEDIG (LPG)**

**9.1** Mae'n ofynnol i ymgeisydd am drwydded sy'n cynnwys cerbyd sydd wedi'i drosi i redeg ar LPG gynhyrchu, cyn i drwydded gael ei rhoi, dystysgrif a gyhoeddwyd gan aelod o'r Gymdeithas LPG yn cadarnhau ei bod y tanc wedi'i osod, ei archwilio'n foddhaol a bod y cerbyd wedi'i brofi yn unol â Chod Ymarfer



Cymdeithas LPG. Mae angen yr ardystiad yma i sicrhau bod y cerbyd yn cael ei ystyried yn ddiogel gan arolygydd cymeradwy.

- 9.2** Os yw'r broses o drosi car i ddefnyddio nwy petrolewm hylifedig yn cynnwys gosod tanc tanwydd LPG yng nghist y cerbyd (ac adleoli'r olwyn sbâr o bosibl) bydd yn ofyniad y bydd digon o le yn rhydd ar gyfer storio. O ganlyniad, rhaid gosod swm rhesymol o fagiau ac unrhyw olwyn sbâr sydd wedi'i dadleoli mewn lleoliad sydd ddim yn amharu ar ardal cludo teithwyr y cerbyd. Fel arall, os oes teiars sy'n gallu rhedeg ar ôl cael twll ar y cerbyd, bydd eithriad rhag cario olwyn sbâr.

## **10. AWYRU**

- 10.1** Rhaid bod ffenestri yn yr holl adrannau ar gyfer teithwyr a bod dulliau digonol o agor a chau dim llai nag un ffenestr ar y naill ochr i'r cerbyd, yn yr adrannau teithwyr blaen a chefn.

- 10.2** Rhaid i deithwyr allu agor ffenestri cefn i deithwyr pan fydden nhw'n eistedd oni bai bod aerdymheru ar gael, ac os felly rhaid i'r gyrrwr weithredu'r aerdymheru ar gais.

## **11. CERBYDAU SY'N HYGURCH AR GYFER CADEIRIAU OLWYN**

- 11.1** Yn achos pob cerbyd hacni / cerbyd hurio preifat, sydd wedi'u hadeiladu neu eu haddasu ar gyfer teithwyr anabl, dyluniad dewisol y cerbyd yw bod unrhyw gadair olwyn yn cael ei llwytho o'r ochr yn hytrach na chefn y cerbyd. Er bod yn well gan y Cyngor i gerbydau gael eu llwytho o'r ochr, bydd pob cerbyd yn cael ei asesu yn ôl ei deilyngdod ei hun.

**Mae'r amodau canlynol yn atodol i'r fanyleb safon cerbyd sy'n berthnasol i bob cerbyd trwyddedig (Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat) gyda chyfleusterau i gludo teithwyr wrth eistedd mewn Cadeiriau Olwyn.**

### ***Amodau Ychwanegol ar gyfer Cerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn***

- 11.2** Ar gyfer pob lle dynodedig ar gyfer defnyddiwr cadair olwyn, rhaid gosod systemau atal annibynnol addas, sy'n cynnwys webin, ar gyfer cadeiriau olwyn a phreswyllydd, y gellir eu haddasu i weddu i ystod o gadeiriau olwyn a maint preswylwyr. Rhaid gosod y systemau atal a'u gweithredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Rhaid i'r system atal cadeiriau olwyn ymgorffori webin pedwar pwynt neu fod o fath sy'n rhan annatod o sedd neu'r cynhalydd cefn - bydd clampiau'n unig ddim yn dderbyniol.
- 11.3** Rhaid i'r system atal ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn gynnwys system angori sydd ag o leiaf tri phwynt (ar draws y glin a'r croeslin). Mae modd i hyn fod yn rhan annatod o'r offer clymu cadair olwyn neu gael ei ddarparu ar wahân.
- 11.4** Mae modd gosod naill ai rampiau neu lifftiau pŵer ar gerbydau i hwyluso mynediad a theithio i deithwyr mewn cadeiriau olwyn, oni bai bod gan y cerbyd

uchder llawr wedi'i fesur o'r ffordd o fwy na 610mm. Os felly, rhaid gosod lifft â phŵer arno ac ni chaniateir defnyddio rampiau.

- 11.5** Rhaid i bob ramp gydymffurfio â 886109 (rhan 2) Categori A neu Gategori 8, gan gynnwys y gofyniad i ddarparu ar gyfer traciau cadeiriau olwyn o 450mm i 735mm ac i ddarparu graddiant heb fod yn fwy serth nag 1 mewn 12 (8.3%).
- 11.6** Rhaid gosod, gweithredu a chynnal a chadw offer ategol yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Rhaid profi unrhyw lifftiau yn unol â Rheoliadau Gweithrediadau ac Offer Codi (LOLER) (1998/2307).
- Rhaid cyflwyno copi o'r dystysgrif archwilio bob chwe mis LOLER ar gyfer lifftiau teithwyr i CBSRhCT ar gais. Rhaid i bob lifft sy'n defnyddio pŵer gydymffurfio â BS6109 (rhan 2) Categori A.
  - Rhaid cyflwyno copi o'r dystysgrif LOLER sy'n berthnasol i oedran y cerbyd yn rhan o'r cais trwyddedu blynyddol ac yn ystod y drefn archwilio.
  - Yn ogystal, rhaid cadw copi o'r dystysgrif LOLER ar y cerbyd bob amser a'i chyflwyno pan fydd swyddog awdurdodedig y cyngor neu Swyddog Heddlu yn gofyn amdani.
- 11.7** Rhaid i rampiau neu lifftiau sydd wedi'u storio beidio ag atal drysau gwasanaeth ac argyfwng rhag cael eu hagor o du mewn na thu allan y cerbyd. Rhaid i lifftiau sydd wedi'u storio'n fewnol blygu i lawr fel y'u dyluniwyd i ganiatáu mynediad i'r allanfa frys pan fydd y drws ar agor.

## **12. ADDASIADAU**

Does dim hawl gwneud unrhyw newid sylweddol na newid ym manyleb, dyluniad, cyflwr nac ymddangosiad unrhyw gerbyd trwyddedig heb wneud y canlynol:

- cydymffurfio â deddfwriaeth traffig ar y ffyrdd,
- cydymffurfio â gofynion yswiriant, a
- chael cymeradwyaeth ar gyfer y newid/newidiadau gan y Cyngor.

## **13. AROLYGU A FFITRWYDD CERBYDAU**

Yn ogystal â gofynion prawf MOT statudol, mae'n ofynnol i gerbydau gael eu profi a'u harchwilio'n fecanyddol yn y ganolfan brofi sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor. Rhaid cyflwyno tystysgrif o'r Ganolfan Brofi gymeradwy i ddangos bod eich cerbyd chi wedi pasio'r prawf yma. Bydd hyn yn cefnogi ceisiadau am drwydded cerbyd ac yn bodloni profion ffitrwydd dros dro.

Mae'r cyfleuster archwilio cerbydau yn **Nhŷ Glantaf, Ystad Ddiwydiannol Trefforest, CF37 5TT**. (Bydd unrhyw newid i gyfleuster arolygu'r Cyngor yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig i ddeiliaid trwyddedau.)

### **13.1 Amledd Profi Cerbydau**

<b>Oedran y cerbyd</b>	<b>Amledd y profion</b>
------------------------	-------------------------

<b>Llai na 3 oed (o ddyddiad y cofrestrriad cyntaf)</b>	<b>Bob blwyddyn</b>
<b>Dros 3 oed, ond llai na 7 oed (o ddyddiad y cofrestrriad cyntaf)</b>	<b>Bob 6 mis</b>
<b>Dros 7 oed (o ddyddiad y cofrestrriad cyntaf)</b>	<b>Bob 4 mis</b>

### 13.2 Ffioedd Profion

Bydd y ffi prawf priodol yn cael ei chodi am yr arolygiad yma ac mae'n daladwy i'r Cyngor **cyn i'r prawf gael ei gynnal**. Bydd y drwydded cerbyd yn cael ei hatal yn awtomatig os bydd y cerbyd yn methu â chael ei gyflwyno ar gyfer archwiliad ar neu cyn y dyddiad archwilio sydd wedi'i bennu yn y drwydded.

Bydd yr ataliad yn parhau mewn grym nes bydd y cerbyd wedi cynnal archwiliad boddhaol neu nes bod trwydded y cerbyd wedi'i dirymu'n awtomatig.

Bydd dim hawl cyflwyno cerbyd ar gyfer archwiliad o'r fath yn gynharach na 28 diwrnod cyn dyddiad arfaethedig y prawf, y bydd ei angen:

- chwe mis o ddyddiad yr arolygiad blynyddol ar gyfer cerbydau hyd at saith oed; a
- bob pedwar mis ar gyfer cerbydau sy'n fwy na saith oed.

### 13.3 Safon Profi

- Mae safon y profion ychwanegol sy'n berthnasol i gerbydau trwyddedig yn seiliedig ar **'Best Practice Guide to Inspection Of Hackney Carriage & Private Hire Vehicles 2012' yr FTA (Freight Transport Association)**.

Mae'r canllawiau isod yn cael eu darparu i osod safon genedlaethol sylfaenol ar gyfer archwilio cerbydau trwyddedig a gellir ei ddefnyddio fel cyfeirnod ar gyfer Swyddogion Awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu, Arolygwyr Cerbydau a Pherchenogion Cerbydau.

- Bydd y Canllaw Arfer Gorau yn cyd-fynd â pholisi'r Cyngor ar addasrwydd cerbydau ac amodau trwydded perthnasol a bydd **YN CYMRYD LLE y 'Llawlyfr Profi Atodol'** ('Supplementary Testing Manual') a ddefnyddiwyd o'r blaen.
- Rhaid cyflwyno **pob cerbyd wedi'i baratoi'n llawn ar gyfer prawf ac mae disgwyl y bydd cerbydau'n pasio prawf y Cyngor y tro cyntaf**. Does dim bwriad i'r prawf gael ei ddefnyddio yn lle rhaglen cynnal a chadw ataliol reolaidd, nac i nodi diffygion y mae angen eu cywiro. Mae'n ofynnol cynnal cerbyd mewn cyflwr sy'n 'addas i'r diben' bob amser. Bwriad y gweithdrefnau sy'n cael eu hamlinellu yn y polisi yma yw darparu cymhelliant i gydymffurfio, gwobrwyo perchnogion cerbydau cyfrifol a sicrhau bod gweithredwyr sy'n methu â chyrraedd y safonau yn ysgwyddo costau diffyg cydymffurfio.

### 13.4 Methu Profion/Ailbrofi

Pan fydd cerbyd yn methu prawf, bydd y diffyg yn cael ei raddio fel a ganlyn:

- a) **Categori 'A'** - nam difrifol sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch y cyhoedd ac sy'n golygu bod cerbyd yn anaddas ar gyfer masnachu parhaus. Bydd trwydded y cerbyd yn cael ei atal ar unwaith;

Mae canllawiau ar ddiffygion sy'n debygol o achosi Methiannau Categori 'A' ar gael gan Swyddogion Trwyddedu ar gais. Dydy'r rhestr yma ddim yn gynhwysfawr oherwydd dydy hi ddim yn bosibl rhagweld pob digwyddiad ond mae'n rhoi canllaw i weithredwyr o'r hyn y mae'r Cyngor yn ei ddisgwyl. Rhaid darllen y canllawiau ar y cyd â 'Best Practice Guide to Inspection Of Hackney Carriage & Private Hire Vehicles 2012' yr FTA.

Os bydd cerbyd yn destun methiant Gradd 'A', bydd trwydded y cerbyd yn cael ei hatal ar unwaith a bydd y Plât Trwydded yn cael ei symud o'r cerbyd nes bydd y cerbyd yn cwblhau archwiliad pellach yn llwyddiannus. **Rhaid cwblhau archwiliad boddhaol arall cyn pen dau fis ar ôl methu prawf neu bydd y drwydded yn cael ei dirymu.**

- b) **Categori 'B'**- nam lle ystyrir bod y cerbyd yn addas i barhau i fasnachu, yn amodol ar unioni'r diffyg o fewn 14 diwrnod i'r prawf.

Rhaid cyflwyno cerbyd, sydd wedi methu'r prawf archwilio cerbyd, i'w ailbrawf i'r archwiliwr cerbyd sydd wedi'i gymeradwyo a'i benodi gan y Cyngor ar y diffygion a ganfuwyd cyn pen 14 diwrnod o ddyddiad y prawf.

Bydd methu â gwneud y cerbyd yn ffit o fewn y cyfnod o 14 diwrnod sy'n cael ei ganiatáu yn arwain at atal trwydded y cerbyd nes bod y cerbyd yn cael archwiliad llwyddiannus. Os bydd y cerbyd wedi'i atal dros dro am dros 2 fis, bydd y drwydded yn cael ei dirymu.

### 13.5 Ffioedd Ail-brofi

- a) Bydd unrhyw gerbyd sy'n methu prawf yn destun FFI AIL-BROFI i'w benderfynu gan Gyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd yn unol â'r gweithdrefnau ar gyfer gosod / adolygu ffioedd. Bydd y ffi yn gysylltiedig â lefel y methiant - bydd ffi uwch am ddiffygion categori 'A', a fydd yn adlewyrchu'r angen i atal trwydded y cerbyd er budd amddiffyn diogelwch y cyhoedd.
- b) Mae Trwyddedigion / Perchnogion Cerbydau yn cael eu cynghori'n gryf i adolygu gofynion y Safonau Arfer Gorau / Amodau'r Drwydded a'u polisi wrth ystyried eu trefn cynnal a chadw a pharatoi cerbydau ar gyfer prawf. Pan fydd cerbydau'n methu'r prawf dro ar ôl tro, mae modd i'r Awdurdod Trwyddedu gynnal adolygiad o weithgaredd masnachu i ystyried a yw'r trwyddedai / gweithredwr yn parhau i fodloni'r meini prawf 'person addas a phriodol'. Mae modd i gofnod o brofion gwael arwain at adolygiad o drwydded(au) gan y Pwyllgor Trwyddedu ac mae modd i hyn gael effaith andwyol ar y busnes.
- c) **Eithriad - Niwed Damwain**  
Pan fo cerbyd wedi cael ei ddifrodi mewn damwain ac mae'n rhaid ei gyflwyno i'w archwilio i asesu ffitrwydd y cerbyd, bydd ffi archwilio ac ailbrofi amgen.

Bydd hyn yn cael ei bennu gan y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, yn unol â'r gweithdrefnau ar gyfer gosod / adolygu ffioedd.

### 13.6 Anghydfod a Her Prawf Cerbyd

Rhaid i unrhyw ddeiliad trwydded / perchennog cerbyd sy'n anghytuno â chanlyniad prawf cerbyd roi gwybod i Oruchwyliwr yr Orsaf Brofi **CYN GADAEI YR ORSAF BRAWF**.

- a) Bydd methu â gwneud hynny yn gwneud unrhyw her yn **ANNILYS**.
- b) Pan fo'r trwyddedai / perchennog yn dymuno herio canlyniad prawf, bydd gofyn iddo / iddi lenwi ffurflen yn manylu ar y rheswm / rhesymau dros her o'r fath. Bydd modd cael copi o'r weithdrefn herio ar gais ar ôl cwblhau prawf.

Efallai bydd ffi yn daladwy i gofrestru her o'r fath. Bydd hyn yn cael ei bennu gan Gyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, yn unol â gweithdrefnau ar gyfer gosod / adolygu ffioedd.

Pe bai'r her yn cael ei CHYNNAL, bydd y ffi yn cael ei HAD-DALU i'r trwyddedai.

- c) Bydd Goruchwyliwr yr Orsaf Brofi yn trefnu i'r Goruchwyliwr adolygu'r prawf, gan ystyried y manylion sydd wedi'u cynnwys yn y ffurflen cofnod o her.
- d) Pan fydd canlyniad y prawf cerbyd yn cael ei GYNNAL, fydd dim adolygiad arall o'r prawf. Mae hawl statudol i apelio am wrthod derbyn / adnewyddu trwydded cerbyd a rhaid gwneud apêl o'r fath i'r Llys Ynadon cyn pen 21 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad ysgrifenedig i wrthod.
- e) Pan fydd yr her yn cael ei chynnal, bydd canlyniad y prawf yn cael ei newid yn unol â hynny a bydd y manylion yn cael eu hanfon at Swyddogion Trwyddedu.

## 14. FFITRWYDD CYFFREDINOL Y CERBYD

### 14.1 Cynnal a Chadw a Chyflwr y Cerbyd

- a) Rhaid cynnal a chadw tu allan yr holl gerbydau trwyddedig mewn modd glân, diogel a phriodol bob amser. Yn benodol, rhaid i du allan y cerbyd:
  - i) peidio â chael tolciau sy'n fawr neu'n finiog,
  - ii) peidio â chael rhwd gweladwy,
  - iii) peidio â chael difrod damwain heb ei drwsio (ac eithrio pan fydd Swyddog Trwyddedu wedi cytuno ar gyfnod o amser ar gyfer cwblhau gwaith trwsio cosmetig)
  - iv) gael gwaith paent unffurf sy'n cyfateb i baent gwreiddiol y cerbyd, ac
  - v) gael ei gadw'n lân, (mae modd rhoi disgresiwn yn ystod cyfnodau o dywydd garw)
- b) Rhaid cynnal a chadw tu mewn yr holl gerbydau trwyddedig mewn modd glân, diogel a phriodol bob amser. Yn benodol, rhaid i du mewn y cerbyd:

- i) peidio â chael unrhyw staen ar y clustogwaith,
- ii) peidio â chael unrhyw holltau neu rwygiadau yn y seddi,
- iii) cael ei gadw mewn cyflwr glendid derbyniol, a
- iv) cael seddi sy'n gweithio yn ôl Manyleb Wreiddiol y Gwneuthurwr.

## 15. YSWIRIANT Y CERBYD

- 15.1** Bydd polisi yswiriant, neu unrhyw ddiogeliad sy'n cydymffurfio â gofynion Rhan IV o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1972, yn ystod cyfnod y drwydded cerbyd. Fydd trwydded cerbyd ddim yn cael ei rhoi na'i hadnewyddu o dan unrhyw amgylchiadau heb brawf bod polisi yswiriant dilys ar waith.
- 15.2** Rhaid i berchennog / ceidwad cofrestredig y cerbyd ofalu ei fod wedi'i yswirio'n ddigonol i foddhad y Cyngor (ac yn cydymffurfio â'r holl ddarpariaethau statudol) drwy'r amser ei fod ar gael ar gyfer cludo teithwyr.
- 15.3** Ar unrhyw adeg pan na fodlonwyd gofynion yr adran yma o'r Polisi, bydd y drwydded cerbyd yn cael ei hatal yn awtomatig nes bod yswiriant digonol wedi'i sicrhau.

## 16. RHOI GWYBOD AM DDAMWEINIAU

- 16.1** Yn unol ag Adran 50(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, rhaid rhoi gwybod i'r Cyngor am unrhyw ddamwain i gerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat sy'n achosi difrod sy'n effeithio'n sylweddol ar:
- a) diogelwch, perfformiad neu ymddangosiad y cerbyd, neu
  - b) cysur neu gyfleustra'r teithwyr, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, a beth bynnag cyn pen saith deg dwy awr ar ôl iddo ddigwydd.
- 16.2** Yn dilyn damwain neu ddifrod i gerbyd trwyddedig, a'i bod yn fwriad gan y perchennog neu'r gweithredwr barhau i ddefnyddio trwyddedig, rhaid i'r cerbyd gael ei archwilio ar unwaith gan Orsaf Brofi'r Cyngor i bennu ei ffitrwydd ar gyfer defnydd parhaus.

Os yw garej gymeradwy'r Cyngor yn penderfynu bod y cerbyd yn addas i'w ddefnyddio'n barhaus, rhaid cytuno ar yr amserlen ar gyfer atgyweiriadau cosmetig gyda Swyddog Trwyddedu'r Cyngor.

Gall y Cyngor atal defnyddio cerbyd trwyddedig nes ei fod wedi'i atgyweirio'n addas ac wedi cael prawf cerbyd boddhaol yng Ngorsaf Brofi'r Cyngor.

- 16.3** Mae modd hurio cerbyd dros dro yn lle cerbyd trwyddedig **sydd wedi cael difrod damwain mawr neu sydd angen atgyweiriad mecanyddol sylweddol, ar yr amod ei fod yn cwrdd â'r fanyleb cerbyd y manylir arno yn y datganiad polisi yma.**

## 17. ADNABOD CERBYD

- 17.1** Rhaid i'r perchennog beri i rif y drwydded gael ei osod a'i arddangos ar y cerbyd bob amser y mae'r cerbyd wedi'i drwyddedu. Bydd y rhif yma yn cael ei arddangos ar ddisg drwydded a plât trwydded sy'n cael eu darparu gan y Cyngor i'r perchennog ar ôl talu blaendal. Y Cyngor fydd yn pennu swm y blaendal.
- 17.2** Rhaid i'r ddisg drwydded gael ei osod a'i arddangos y tu mewn i'r cerbyd yn y fath fodd fel bod y manylion arno yn glir ac yn weladwy i unrhyw deithiwr sy'n cael ei gludo yn y cerbyd.
- 17.3** Rhaid i'r plât trwydded gael ei osod a'i arddangos y tu allan ac ar gefn y cerbyd mor agos at y bympar cefn ag sy'n ymarferol bosibl fel ei fod ddim yn cuddio marc cofrestru'r cerbyd. Bydd y manylion arno yn wynebu tuag allan ac yn y fath fodd a lle bod y plât trwydded i'w weld yn glir yng ngolau dydd o'r ffordd y tu ôl i'r cerbyd.
- 17.4** Rhaid i'r ddisg drwydded a'r plât trwydded aros yn eiddo i'r Cyngor a rhaid eu dychwelyd ato cyn pen saith diwrnod ar ôl cyflwyno rhybudd priodol i'r perchennog gan swyddog awdurdodedig y Cyngor os fydd y perchennog bellach ddim yn dal trwydded gyda'r Cyngor sydd mewn grym mewn perthynas â'r cerbyd.
- 17.5** Rhaid i bob cerbyd gael arfbais swyddogol y Cyngor a fydd yn cael ei roi gan y Cyngor yn unig ar ffurf Decal wedi'i osod ar y drysau ffrynt agos ac allanol, wedi'i osod yn uniongyrchol at y gwaith paent lle mae'n weladwy yn glir. **NODWCH: Does dim hawl defnyddio dyfeisiau magnetig.**

### **Cerbydau Hacni'n Unig**

- 17.6** Rhaid i'r gweithredwr arddangos cromen wedi'i goleuo ar do'r cerbyd. Rhaid i'r gromen gynnwys y gair 'TAXI' neu'r fersiwn Gymraeg 'TACSI' ar flaen a chefn y gromen, ac ni fydd yn cynnwys unrhyw ysgrifen arall o unrhyw fath. (Mae modd i weithredwyr arddangos un fersiwn yn y tu blaen a'r fersiwn amgen yn y cefn pe hoffen nhw)
- Rhaid diffodd golau cromen y to pan fydd y cerbyd wedi'i logi a'i oleuo pan fydd y cerbyd ar gael i'w hurio.

### **Cerbyd sy'n cael eu hurio'n breifat YN UNIG**

- 17.7** Mae hawl gan y gweithredwr, os yw'n dymuno, arddangos cromen ar do'r cerbyd. Os oes cromen wedi'i osod, mae at ddibenion adnabod yn unig a dylai bod dim modd ei oleuo oherwydd mae modd i hyn achosi dryswch gan ei fod yn edrych fel bod y cerbyd ar gael i'w hurio. Dylai'r gromen gynnwys enw a rhif ffôn y gweithredwr yn unig, ynghyd â'r geiriau 'Cerbyd Hurio Preifat' ar flaen a chefn y gromen, ac ni ddylai gynnwys unrhyw ysgrifen arall o unrhyw fath.

## **18. PLATIAU TRWYDDED**

- 18.1** Bob amser pan fydd cerbyd wedi'i drwyddedu fel cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat, oni bai bod eithriad wedi'i ganiatáu, rhaid i'r cerbyd arddangos y Plât Trwydded sy'n cael ei ddarparu gan y Cyngor. Rhaid ei osod yn ddiogel ar y tu allan mewn man amlwg ar neu uwchben bympar cefn y cerbyd.
- 18.2** Rhaid i'r ddisg drwydded fewnol gael ei gosod a'i harddangos y tu mewn i'r cerbyd yn y fath fodd fel ei bod yn amlwg yn weladwy i unrhyw deithiwr sy'n cael ei gludo yn y cerbyd
- 18.3** Mae'r Plât Trwydded / disg mewnol yn parhau i fod yn eiddo i'r Cyngor a rhaid ei ddychwelyd cyn pen saith diwrnod pan:
- a) mae'r cerbyd yn peidio â chael ei drwyddedu yn gerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat, neu
  - b) mae Swyddog Awdurdodedig y Cyngor yn gofyn yn ysgrifenedig pan fydd y plât wedi'i atal, ei ddirymu, neu wedi dod i ben.

## **19. ENW MASNACHU / ARWYDDION Y CERBYD**

- 19.1** Yn achos cerbydau sydd wedi'u trwyddedu i gario hyd at bedwar teithiwr, mae modd arddangos arwydd / panel heb fod yn fwy na 61 x 30.4 centimetr (24" x 12") o faint ar y drysau cefn yn unig.
- 19.2** Yn achos cerbydau sydd wedi'u trwyddedu i gludo rhwng pump ac wyth o deithwyr mae modd dangos arwydd / panel heb fod yn fwy na 91.4 x 70 centimetr (36 "x 24") o faint ar y drysau cefn yn unig.
- 19.3** Mae hawl gosod sribed haul 7.6 centimetr (3") hefyd ar y ffenestri blaen a chefn. Ni fydd unrhyw arwyddion adnabod / hysbysebu eraill ac eithrio'r rhai a gyhoeddwyd gan y Cyngor ac a gytunwyd yn flaenorol gan y Cyngor yn cael eu gosod y tu mewn neu'r tu allan i'r cerbyd.

### **Cerbyd Hacni yn Unig**

- 19.4** Rhaid i'r arwydd yma, (Enw Masnachu) gynnwys enw, rhif ffôn, e-bost neu gyfeiriad gwefan y perchennog neu'r gweithredwr yn unig.

### **Cerbyd Hurio Preifat yn Unig**

- 19.5** Rhaid i'r arwydd yma, (Enw Masnachu) gynnwys enw'r perchennog neu gwmni'r gweithredwr, rhif ffôn, e-bost neu gyfeiriad gwefan yn unig ynghyd â'r geiriau "Rhaid Archebu o Flaen Llaw". Rhaid peidio â chynnwys y geiriau 'tacsi/taxi', 'hurio/hire' na 'cab'. Rhaid cynnwys y geiriau "Rhaid Archebu o Flaen Llaw" ar yr arwydd yma a rhaid i'r geiriau yma fod yr un mor amlwg ag enw'r perchennog. Mae modd cynnwys y geiriad "Gwasanaeth 24 Awr Ar Gael" hefyd, os yw'n briodol. Mae hawl gosod sribed haul 7.6cm (3") hefyd ar y ffenestri blaen a chefn.



***Mae gan y Cyngor bolisi mewn perthynas â hysbysebu masnachol ar Gerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat. Mae'r manylion am ei darpariaethau isod:***

**19.6** Mae modd gosod sgrin sy'n arddangos hysbysebion sy'n sgrolio neu'n symud yn ddiogel o fewn y cerbyd, ar yr amod fydd y sgrin ddim o fewn golwg gyrrwr y cerbyd, a bod y Cyngor wedi cymeradwyo cynnwys unrhyw ddeunydd sy'n cael ei ddangos yn ysgrifenedig.

Rhaid i bob hysbyseb gydymffurfio â safonau'r Cyngor Safonau Hysbysebu ym mhob mater sy'n ymwneud â chwaeth dda, o ran cynnwys ac ymddangosiad ac ni ddylen nhw ymwneud â thybaco, alcohol neu faterion o natur rywiol. Rhaid gosod arwydd o fewn golwg teithwyr y sedd gefn yn nodi bydd y sgrin yn cael ei diffodd ar gais y teithiwr.

## **20. HYSBYSEBU MASNACHOL**

**20.1** Rhaid i bob cais am hysbysebu ar Gerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat gael ei wneud yn ysgrifenedig i'r Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a rhaid cynnwys sampl o'r hysbyseb arfaethedig.

**20.2** Rhaid i ansawdd y cyflwyniadau fod o safon dderbyniol. Dydy ffacsys ddim yn dderbyniol. Rhaid darparu gwaith celf lliw ym mhob achos a rhaid darparu manylion llawn y cynigion hysbysebu. ***(DS: Mae'n hanfodol bod holl fanylion yr hysbyseb arfaethedig yn cael eu dangos yn y cyflwyniad gwreiddiol. Os nad ydyn nhw, yna bydd modd gwrthod yr hysbyseb wedi hynny.)***

**20.3** Bydd y cyflwyniad, os bydd yn cael ei ystyried yn dderbyniol, yn cael **Cymeradwyaeth Dros Dro.**

**20.4** **Bydd Cymeradwyaeth Derfynol** yn cael ei roi unwaith bydd yr hysbyseb wedi'i gosod ar y cerbyd.  
Rhaid gwneud apwyntiad gyda Swyddog Trwyddedu Tacsî ar gyfer archwiliad terfynol pan fydd y Swyddog yn cadarnhau bod y gwaith wedi'i gwblhau yn unol â'r gymeradwyaeth dros dro a roddwyd.

**20.5** Bydd yn ofynnol i berchennog unrhyw gerbyd sy'n arddangos hysbyseb sydd heb dderbyn ei archwiliad terfynol ei symud ar unwaith.

**20.6** Bydd cerbydau sy'n arddangos hysbysebion heb gymeradwyaeth y Cyngor yn mynd yn groes i'r amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded cerbyd ac mae modd iddyn nhw fod yn agored i'w hatal nes bydd y deunydd wedi'i dynnu o'r cerbyd.

**20.7** Rhaid i bob hysbyseb gydymffurfio â Chodau Hysbysebu a Hyrwyddo Gwerthu Prydain a chyfrifoldeb yr asiantaeth neu'r unigolyn sy'n ceisio cymeradwyaeth yr Awdurdod Trwyddedu yw sicrhau eu bod yn gwneud hynny.

**20.8** Rhaid gosod unrhyw hysbyseb a gymeradwyir ar ddrysau cefn y teithwyr a / neu'r paneli chwarter cefn yn unig, o dan y ffenestri **ac eithrio'r arwyddion sy'n dangos yr Enw Masnachu** yn arddangos manylion y cwmni (gweler Pwynt 12 isod). Mae

modd arddangos y rhain ar ddrws ffrynt y cerbyd, o dan y ffenestr a rhaid iddyn nhw beidio â chuddio'r arwydd sy'n dangos rhif trwydded y cerbyd. (Bydd trwyddedigion sy'n dewis PEIDIO â chael hysbysebu masnachol yn parhau i arddangos eu Henw Masnachu ar ddrysau cefn.)

- 20.9** Rhaid i'r deunyddiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer hysbysebu fod o ansawdd nad yw'n hawdd eu difwyno na'u datgysylltu. Does dim hawl defnyddio unrhyw ddeunyddiau papur na phast gludiog sy'n hydoddi mewn dŵr. Rhaid gosod hysbysebion yn uniongyrchol ar baneli allanol drws cefn y cerbyd neu eu cysylltu i ddechrau â phanel magnetig cymeradwy, sydd wedyn yn cael ei osod ar y cerbyd.
- 20.10** Does dim hawl defnyddio deunydd sy'n adlewyrchu at ddibenion hysbysebu.
- 20.11** Bydd pob cynnig yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod ond fydd yr hysbysebion canlynol ddim yn cael eu cymeradwyo:
- Rhai sydd â thestunau gwleidyddol, hiliol, crefyddol, rhywiol neu ddadleuol;
  - Rhai ar gyfer asiantaethau partneru (escort agencies), sefydliadau hapchwarae neu barlyrau tylino;
  - Rhai sy'n arddangos ffigurau noethlymun neu led-noethlymun;
  - Rhai sy'n debygol o fynd yn groes i chwaeth y cyhoedd (yn darlunio trais, iaith anwedus neu ddi-chwaeth);
  - Rhai sydd ag unrhyw gyfeiriad at alcohol, tybaco / sigarêts a chyffuriau;
  - Rhai sy'n hysbysebu prisiau gostyngedig;
  - Rhai sy'n hysbysebu swyddi;
  - Y rhai sy'n tynnu oddi wrth gyfanrwydd a / neu adnabyddiaeth y cerbyd;
  - Y rhai sy'n ceisio hysbysebu mwy nag un cwmni / gwasanaeth neu gynnyrch.

## **21. MESURYDDION/PRISIAU**

### **Cerbydau Hacni**

- 21.1** Rhaid gosod tacsimedr cymeradwy ym mhob cerbyd hacni a rhaid ei galibro'n gywir, ei selio a rhaid iddo fod yn gwbl weithredol yn unol â'r strwythur prisiau cyfredol a gymeradwywyd gan y Cyngor.
- 21.2** Rhaid stampio pob tacsimedr yn briodol i sicrhau cydymffurfiad â Rheoliadau Offerynnau Mesur (Tacsimedrau) 2006, neu unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol.
- 21.3** Rhaid gosod y tacsimedr fel bod ei wyneb yn weladwy yn glir i unrhyw berson sy'n cael ei gludo yn y cerbyd bob amser. Rhaid i ddeialu'r tacsimedr gael eu goleuo'n iawn trwy gydol y cyfnod hurio gan gynnwys yn ystod oriau'r tywyllwch a hefyd ar unrhyw adeg ar gais yr huriwr.
- 21.4** Pan fydd y tacsimedr yn gweithredu rhaid cofnodi pris sydd ddim yn fwy na'r uchafswm pris y mae modd ei godi am siwrnai ar wyneb y mesurydd.

- 21.5** Rhaid i gopi swyddogol o dariff prisiau'r Cyngor gael ei arddangos yn glir ac yn ddarllenadwy yn y cerbyd fel ei fod yn weladwy yn amlwg i deithwyr sy'n cael eu cludo ynddo.
- 21.6** Rhaid i'r tacsimetr cerbyd gael ei weithredu ar ddechrau'r siwrnai ac ni fydd y pris sy'n cael ei fynnu gan y gyrrwr yn fwy na'r hyn sy'n cael ei bennu gan y Cyngor mewn cysylltiad â'r tariff prisiau ar gyfer hurio cerbydau hacni.
- 21.7** Os bydd taith o'r fath yn cychwyn yn yr Ardal ond yn gorffen y tu allan iddi, bydd modd codi tâl am y siwrnai am bris a gytunwyd cyn i'r hurio ddechrau. Os na wnaed cytundeb o'r fath yna ddylai'r pris sydd i'w godi ddim bod yn fwy na'r hyn a bennir gan y Cyngor mewn cysylltiad â'r tariff prisiau ar gyfer hurio cerbydau hacni.
- 21.8** Caniateir mesuryddion 'calendr' mewn cerbydau hacni ar yr amod eu bod nhw'n gweithredu yn unol â thariff prisiau cytunedig y Cyngor. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, rhaid i'r tariff a oedd ar waith ar adeg cychwyn taith aros trwy gydol y daith honno.

## **Cerbydau Hurio Preifat yn Unig**

- 21.9** Dydy hi ddim yn ofynnol gosod tacsimetr mewn cerbydau hurio preifat. Serch hynny, lle mae tacsimetr neu ddyfais arall ar gyfer recordio prisiau wedi'u gosod, rhaid iddo fod o fath sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor.
- 21.10** Rhaid i yrwyr cerbydau hurio preifat gytuno ar gost y daith gyda'r teithiwr / teithwyr cyn ymgymryd â'r siwrnai. Ar ddiwedd y daith, ni ddylai'r pris sy'n cael ei godi fod yn fwy na'r swm y cytunwyd arno o flaen llaw.

## **22. DEDDF IECHYD 2006**

Cyfrifoldeb y gyrrwr a'r perchennog yw sicrhau bod arwyddion 'dim ysmegu', fel y rhagnodir gan Ddeddf Iechyd 2006, yn cael eu harddangos ym mhob cerbyd hacni neu gerbydau hurio preifat trwyddedig drwy'r amser.

## **23. NEWIDIADAU A THROGLWYDDO TRWYDDED**

### **Newidiadau**

- 23.1** Rhaid i berchennog y Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat y mae'r Cyngor wedi rhoi trwydded cerbyd ar ei gyfer hysbysu'r Cyngor o unrhyw newid cyfeiriad cyn gynted ag sy'n ymarferol a beth bynnag o fewn saith diwrnod.

### **Trosglwyddo Trwydded (Person i Berson)**

- 23.2** Pan fydd deiliad trwydded cerbyd yn dymuno trosglwyddo'r drwydded i berson arall rhaid iddo hysbysu'r Cyngor, yn ysgrifenedig, gan ddefnyddio'r ffurflen gais ragnodedig a thalu'r ffi briodol cyn i'r newid hwnnw ddigwydd.

Fydd trosglwyddo'r drwydded ddim yn cael ei ystyried yn effeithiol nes bydd y weithdrefn ragnodedig wedi'i chwblhau a bod trwydded cerbyd newydd wedi'i chyhoeddi.

## 24. **DEFNYDD ARFAETHEDIG/MASNACHU O BELL CERBYDAU HACNI**

### 1. **Cyflwyniad**

- 24.1 Diben y polisi yma yw amlinellu sut y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn penderfynu ar geisiadau am drwyddedau Cerbydau Hacni, eu hadnewyddu a'u trosglwyddo yn dilyn Dyfarniad yr Uchel Lys - Cyngor Dinas Newcastle v Berwick upon Tweed [2008] ULCLI 2369 (Gweinyddol) a'i effaith ar fasnachu Cerbydau Hacni o bell.
- 24.2 Bydd y Cyngor yn penderfynu ar bob cais yn ôl ei deilyngdod, ond bydd diogelwch y cyhoedd yn brif flaenoriaeth. Nod y Cyngor fydd cynnal rheolaeth leol o'i gerbydau trwyddedig.

## 25. **Ceisiadau am Drwydded Cerbyd Hacni NEWYDD, neu am ADNEWYDDU Trwydded**

- 25.1 Bydd raid i geisiadau am drwydded ddangos bwriad diffuant i fasnachu yn bennaf o fewn ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yn unol â thelerau ac amodau'r drwydded berthnasol. Tybir y caiff unrhyw gais am Drwydded Cerbyd Hacni gan berson **NAD YW'N** bwriadu masnachu i raddau rhesymol aml o fewn ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ei **WRTHOD**.
- 25.2 Does dim modd gweithredu yn Rhondda Cynon Taf i raddau rhesymol gan fwriadu masnachu am gyfnod sylweddol o amser mewn Awdurdod arall. Os daw achos o'r fath i'r amlwg (ac mae'n ymddangos y caiff dibenion y ddeddfwriaeth a diogelwch y cyhoedd eu rhoi mewn perygl) tybir y caiff y cais ei **WRTHOD**.

## 26. **TROSGLWYDDO Perchnogaeth Cerbyd Hacni trwyddedig (*pan fo cerbyd trwyddedig yn cael ei drosglwyddo o un person i berson arall*)**

- 26.1 Yn ôl Adran 49 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, RHAID i berchennog cerbyd trwyddedig sy'n trosglwyddo'r cerbyd hwnnw i unigolyn arall roi enw a chyfeiriad yr unigolyn sy'n cael y Cerbyd Hacni yn ysgrifenedig i'r Cyngor cyn pen 14 diwrnod ar ôl ei drosglwyddo. Does gan y Cyngor ddim pŵer i wrthod cofrestru'r perchennog newydd. Cyhyd ag y bo'r hen berchennog yn rhoi'r Hysbysiad trosglwyddo angenrheidiol yn unol ag Adran 49 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 **yn y fformat sy'n ofynnol gan yr Awdurdod**, caiff y perchennog newydd ei gofrestru fel deiliad newydd y drwydded.
- 26.2 Yn sgil trosglwyddo'r cerbyd, bydd disgwyl bod gan ddeiliad newydd y drwydded fwriad diffuant i weithredu o fewn ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o dan delerau ac amodau'r drwydded sy'n gysylltiedig a'r cerbyd. Dylai trosglwyddai nodi'r rhwymedigaeth o dan adran 73 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 i roi gwybodaeth i swyddog awdurdodedig a allai fod yn rhesymol ofynnol at ddibenion cyflawni eu

swyddogaethau o dan y ddeddfwriaeth. Pan nad yw gwybodaeth yn cael ei rhoi ar ôl i'r swyddog ofyn amdani; bydd y Cyngor yn ystyried defnyddio ei bŵer i ddirymu'r drwydded o dan adran 60 Deddf 1976 hyd nes bod yr wybodaeth honno yn cael ei rhoi.

26.3 Pan fo'r canlynol yn wir yn achos Deiliad Newydd Cerbyd Hacni Trwyddedig:

- Mae'n bwriadu gweithredu y tu allan i ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
- does ganddo ddim bwriad masnachu i raddau rhesymol o fewn ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;
  - a/neu mae'n bwriadu masnachu o fewn ardal Awdurdod arall am gyfnod sylweddol o amser;
  - ac mae'n ymddangos y caiff dibenion y ddeddfwriaeth a diogelwch y cyhoedd eu rhoi mewn perygl,

**Tybir y caiff y drwydded ei diddymu.**

## 27. Diddymu trwydded

Rhaid i ddeiliad trwydded weithredu'n unol ag unrhyw amodau sy'n mynnu ei fod yn gweithredu i raddau rhesymol o fewn ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Os daw i'r amlwg ei fod yn masnachu o bell mewn Awdurdod arall am gyfnod sylweddol o amser (ac mae'n ymddangos bod dibenion y ddeddfwriaeth a diogelwch y cyhoedd wedi cael eu rhoi mewn perygl) **tybir y caiff y drwydded ei diddymu.**

## 28. Amgylchiadau Eithriadol

Caiff penderfyniad ei wneud ar bob cais yn ôl ei deilyngdod. Serch hynny, bydd modd dadlau yn erbyn y tybiaethau ynghylch gwrthod trwydded neu'i diddymu am fasnachu mewn Awdurdod heblaw am RhCT mewn amgylchiadau eithriadol. Dyletswydd yr ymgeisydd/deiliad y drwydded fydd rhoi tystiolaeth o amgylchiadau eithriadol. Hefyd, bydd raid iddo argyhoeddi'r Pwyllgor Trwyddedu na fyddai'r gyfraith yn cael ei thorri, ac na fyddai'r cyhoedd mewn perygl pe bai'n dyfarnu o'i blaid. Gall hyn gynnwys rhoi'r drwydded, ei hadnewyddu, a chytuno i beidio ag atal y drwydded na'u diddymu.